*Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion*

# Adroddiad Terfynol

## Mawrth 2003

*Helen Payne*
**Swyddog Datblygu**

# *Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion*

## Adroddiad Terfynol
## Mawrth 2003

© Cyngor Ieuenctid Cymru 2003

Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn rhannol neu'n gyfan gwbl i ddibenion addysg anfasnachol ar yr amod bod pob dyfyniad yn cael ei atgynhyrchu air am air heb eu haddasu gan nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Helen Payne
Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie
Lôn-y-Llyn
Caerffili
CF83 1BQ

Ffôn: 029 20 855700
Ffacs: 029 20 855701
E-bost: wya@wya.org.uk
Gwefan: www.wya.org.uk

*Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn cydweithrediad â Dave Massey, Ymgynghorydd.*

# RHAGLEN BARTNERIAETH GWAITH IEUENCTID AC YSGOLION

# ADRODDIAD TERFYNOL

## CYNNWYS

**1. RHAGYMADRODD** .......... **1**

**2. CEFNDIR** .......... **1**

PROSIECTAU A ARIANNWYD 1998 - 2002 .......... 2

**3. DULLIAU GWEITHREDU A GORCHWYLION** .......... **3**

**4. CYFLAWNIADAU** .......... **4**

POBL IFANC .......... 4
GWEITHWYR IEUENCTID .......... 5
YSGOLION AC ASIANTAETHAU ERAILL .......... 7

**5. DYFYNIADAU** .......... **8**

**6. ARGYMHELLION** .......... **9**

**CASGLIAD** .......... **10**

**ATODIAD 1** .......... **11**

PROSIECTAU UNIGOL – CRYNODEB O'R NODAU A'R STRATEGAETHAU .......... 11

# RHAGLEN BARTNERIAETH GWAITH IEUENCTID AC YSGOLION

## Adroddiad ar Ddiwedd y Rhaglen

## 1. RHAGYMADRODD

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan ddefnyddio gwybodaeth o'r adroddiad ar ddiwedd y prosiect ac adroddiadau dros dro.

Mae’r adroddiad yn cynnig golwg gyffredinol ar y rhaglen o’i sefydlu yn 1998 hyd ei diwedd yn 2003 ynghyd ag argymhellion a goblygiadau ar gyfer ymarfer gwaith ieuenctid.

## 2. CEFNDIR

Yn 1998 cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig fod adnoddau ychwanegol ar gael i Gyngor Ieuenctid Cymru weinyddu 8 prosiect cychwynnol mewn 8 ardal awdurdod lleol; gan ymestyn i bob un o'r 22 awdurdod unedol maes o law.

Bwriad y prosiectau oedd sefydlu a defnyddio trefniadau partneriaeth er mwyn ymateb i anghenion lleol, gyda sylw arbennig i gyflawniad; cymhelliad ac agwedd meddwl pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd.

Prif ffocws y prosiectau oedd y bobl ifanc hynny a oedd wedi ymddieithrio, neu mewn perygl o ymddieithrio, o'r gyfundrefn addysg ffurfiol. Nododd adroddiad gan Estyn ar y prosiectau peilot: ‘*Yn gyffredinol, mae’r prosiectau wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn tuag at leihau nifer y disgyblion a waharddwyd o'r ysgol yn barhaol neu dros dro*.’ Nodwyd hefyd fod ‘*partneriaethau gwaith ieuenctid ac ysgolion wedi llwyddo i ailgysylltu pobl ifanc ag addysg’* gyda gwelliant o’r herwydd o ran presenoldeb, hunanhyder ac ymddygiad. *(Estyn 2001)*

Cynhaliwyd dadansoddiad o waith y prosiectau cychwynnol hyn eisoes, a gyhoeddwyd gan Gyngor Ieuenctid Cymru - *‘Agwedd Meddwl, Presenoldeb a Chyflawniad’* (CIC, Mehefin 2000).

Yn sgil y prosiect peilot mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi datblygu Rhaglenni Partneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion. Mae rhai awdurdodau wedi estyn eu rhaglenni’n sylweddol, ac mae eraill wedi parhau â darpariaeth fwy cyfyngedig, tra bod nifer bychan wedi sicrhau cyllid lleol i barhau â’r ddarpariaeth y tu hwnt i amserlen y cyllid cenedlaethol.

Yn aml, mae gweithio mewn partneriaeth wedi ymestyn y tu hwnt i'r cysyniad gwreiddiol o ysgolion a gwaith ieuenctid i gynnwys asiantaethau cefnogol eraill gan gynnwys Gwasanaethau Lles Addysg, darparwyr yn y sector gwirfoddol a cholegau Addysg Bellach (gan roi gweithwyr ieuenctid mewn timau cefnogi disgyblion hefyd).

Mae ystod ac amrywiaeth y prosiectau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn dangos fel mae datblygiad y prosiectau yn aml wedi ymateb i anghenion ac anawsterau lleol, yn ogystal ag i'r cyfleodd sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru (gweler atodiad 1).

Prosiectau a Ariannwyd 1998 - 2002

| Ardaloedd | Blwyddyn |
|---|---|
| Caerdydd<br>Sir Gaerfyrddin<br>Sir Ddinbych<br>Gwynedd<br>Casnewydd<br>Merthyr Tudful<br>Powys<br>Rhondda Cynon Taf | **1998** |

↓

| Ardaloedd | Blwyddyn |
|---|---|
| Ynys Môn<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>Blaenau Gwent<br>Conwy<br>Bro Morgannwg<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam<br>Sir Fynwy<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Abertawe<br>Sir Benfro<br>Torfaen | **2000** |

↓

| Ardaloedd | Blwyddyn |
|---|---|
| Caerffili<br>Ceredigion | **2001 - 2002** |

## 3. DULLIAU GWEITHREDU A GORCHWYLION

Mae pob rhaglen bartneriaeth yn targedu grwpiau tebyg i'w gilydd, gan ddefnyddio dulliau gweithredu tebyg gan amlaf - ‘pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, neu mewn perygl o ymddieithrio, o addysg y brif ffrwd’. Mae’r dulliau gwaith a ddefnyddir a’r gorchwylion a ddilynir elfennau tebyg hefyd, ond ceir hefyd sawl gwahaniaeth allweddol sy’n adlewyrchu athrawiaethau gwahanol. Efallai fod hyn yn adlewyrchu’r canfyddiadau gwahanol sydd o bwrpas rhaglenni o'r fath gan y gwahanol bartneriaid a’r grym sydd ganddynt o fewn pob partneriaeth. Er bod y rhan fwyaf o raglenni’n datgan yn glir mai un nod allweddol yw ailgysylltu ag addysg brif ffrwd, mae’n ymddangos bod y brwdfrydedd dros y nod hwnnw’n amrywio gryn dipyn o brosiect i brosiect. Profiad unedau arbenigol triwantiaeth ac eithrio pobl ifanc yn yr 1970au a’r 1980au oedd bod llawer o ysgolion yn defnyddio’r cyfleusterau hyn fel lleoedd cyfleus i adael disgyblion anhydrin. Mae’n glir o edrych ar ganlyniadau’r rhaglenni dan y cynllun hwn fod rhywbeth llawer mwy cadarnhaol yn digwydd o safbwynt ansawdd y gwasanaethau a gynigir, a’r profiadau a geir gan y rhan fwyaf o’r bobl ifanc sy’n cymryd rhan. Y gwir amdani, er hynny, yw ei bod yn annhebygol y bydd llawer o’r bobl ifanc hyn yn cael eu hailgysylltu â’r ysgolion, a gellid dadlau nad yw o reidrwydd y peth gorau iddynt chwaith.

Mae’n bosibl adnabod tri dull gwahanol o weithredu o fewn y prosiectau yn y rhaglen bartneriaeth:

- Datblygu cwricwlwm amgen er mwyn ymateb i anghenion y bobl ifanc.
- Rhaglen a negodwyd ac a ddarperir yn gyfochrog gan yr ysgol a darparwyr eraill wrth i'r bobl ifanc barhau i fynychu’r ysgol yn rhan-amser gan fynychu’r ddarpariaeth arall am weddill yr wythnos.
- Darpariaeth o fewn yr ysgol gyda chymorth ychwanegol er mwyn i bobl ifanc allu dilyn y cwricwlwm cenedlaethol.

Mae’n ymddangos bod ymateb cadarnhaol pobl ifanc i'r prosiectau’n profi bod pethau buddiol ym mhob un o’r dulliau hyn, er bod rhai’n fwy cyson ag athrawiaeth gwaith ieuenctid na’i gilydd.

> *‘Rwy’n hoffi gwneud y cwricwlwm amgen oherwydd rydyn ni’n cael dewis pa weithgareddau i’w gwneud. Mae’r cyfle i wneud gwaith gwahanol bethau a chael profiadau yn help imi benderfynu beth rydw i am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol.’*

> *‘Fe allai eich helpu i fynychu oherwydd mae’n lle hwyliog, ac rydych chi’n cael brecwast, a does dim athrawon ffroenuchel, ac mae’r gwersi’n cynnwys rhywbeth heblaw sgrifennu o hyd’.*

> *‘Rwy’n tynnu ymlaen yn well gyda’r athrawon, dydw i ddim yn dadlau’n benben â nhw fel roeddwn i. Mae cael mwy o gymorth yn well. Rydw i’n teimlo’n well wrth siarad ac rydw i’n gallu cadw fy nhymer’.*

O ran canlyniadau, fel y dywedwyd uchod, nid yw'n ymddangos bod y dull gweithredu a fabwysiedir gan y prosiect yn hanfodol bwysig; y peth pwysig yw cyfuniad o'r ffactorau canlynol:

- *Dull cydlynol a chynlluniedig sy'n cynnwys pawb yn y bartneriaeth.*
- *Cynnwys pobl ifanc mewn gwneud dewis cadarnhaol i gymryd rhan.*
- *Datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau ac arferion proffesiynol, a pharch tuag atynt.*
- *Ymrwymiad i annog pobl ifanc i gyflawni, a darparu cymorth cyffredinol, priodol.*
- *Cynnwys rhieni ac ennill eu cefnogaeth.*
- *Hyblygrwydd yn y rhaglen sy'n ei gwneud yn bosibl adolygu cynnydd ac addasu.*
- *Defnyddio a datblygu partneriaethau gydag ystod o ddarparwyr gwasanaethau ac asiantaethau cefnogol.*

## 4. CYFLAWNIADAU

Gellir categoreiddio cyflawniadau dan sawl pen, mewn perthynas â phawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni.

O safbwynt y bobl ifanc sy'n cymryd rhan, mae hyn yn cynnwys achrediad; agwedd meddwl newydd; gwell hunan-barch a hunanhyder; a gwell presenoli.

O safbwynt gweithwyr ieuenctid byddai hyn yn cynnwys datblygiadau cadarnhaol o ran arfer proffesiynol, gwell dealltwriaeth o'r materion pwysig wrth weithio mewn partneriaeth; cydnabyddiaeth i agwedd meddwl a phroblemau gweithwyr proffesiynol eraill; a datblygu systemau cofnodi a gwerthuso mwy cadarn.

I ysgolion ac asiantaethau cysylltiedig eraill byddai hyn yn cynnwys dealltwriaeth lawnach o rôl gweithwyr ieuenctid a chydnabyddiaeth i'w harbenigedd proffesiynol; rhagor o ymwybyddiaeth bod addysg ffurfiol yn y brif ffrwd yn amhriodol i rai pobl ifanc; a datblygiad ystod o strategaethau i fynd i'r afael ag anfodlonrwydd.

## Pobl Ifanc

O ran canlyniadau y gellir eu mesur ymddengys fod y cynllun wedi bod yn bur llwyddiannus – dyfarnwyd dros 900 o dystysgrifau achrediad RhCA; ac mae rhyw 1500 o bobl ifanc wedi ymgymryd â hyfforddiant pellach, er enghraifft:

Gweithdai ar faterion llosg; rhaglenni profiad gwaith; cyrsiau mewn cysylltiad â sefydliadau Addysg Bellach; Gwobr Dug Caeredin; gwobrau cyflawniad ieuenctid a gwobrau ASDAN ymhlith eraill. Yn ogystal, ceir sawl enghraifft o bobl ifanc yn llwyddo i ddilyn pynciau craidd yn y cwricwlwm cenedlaethol yng nghyd-destun ysgolion.

Mae pob prosiect yn sôn am newidiadau er gwell yn agwedd meddwl y bobl ifanc a gymerodd ran. Ceir tystiolaeth am hyn nid yn unig yn y sylwadau gan arweinwyr prosiectau, ond yn y presenoldeb gwell; sylwadau gan staff ysgolion a rhieni a'r bobl ifanc eu hunain:

- *'Mae'r cynllun hwn wedi bod o fudd mawr iawn i'r disgyblion a gymerodd ran ynddo. Mae gwelliant sylweddol wedi bod o ran presenoldeb ac agwedd meddwl'* (Pennaeth ysgol)
- *'Mae'r tîm yn cyfrannu pob math o syniadau, lle mae athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cydweithio, gan ddefnyddio sgiliau ategol, er mwyn bod o fudd i bobl ifanc sydd yn cael anawsterau i ymdopi â disgyblaeth bywyd yr ysgol'* (Pennaeth gwasanaethau cefnogi disgyblion)
- *'Mae hi'n edrych ymlaen at fynd i'r coleg i ennill ei chymwysterau'* (Rhiant)
- *'Mae darllen a sgrifennu fy mab wedi gwella'n aruthrol … bellach mae'n dod adre o'r ysgol ac yn sôn yn frwdfrydig am waith y diwrnod '* (Rhiant)
- *'Dyw hi ddim mor swil nawr ac mae ganddi nod mewn bywyd'* (Rhiant)
- *'Rwy'n hoffi'r cwricwlwm amgen oherwydd mae'n ddiddorol ac rwy'n hoffi cymryd rhan yn y gweithgareddau'* (Disgybl Blwyddyn 10)
- *'Mae'r prosiect wedi meithrin fy hunanhyder ac rwy'n dod i'r ysgol yn amlach'* (Disgybl Blwyddyn 11)
- *'Mae fy ngweithiwr ieuenctid wedi gwneud imi sylweddoli pa mor bwysig ydy'r ysgol o safbwynt fy nyfodol. Rwy'n gwrando'n well mewn dosbarthiadau ac yn gwneud fy ngwaith cartref. Mae mam yn falch felly mae pethau'n well gartref hefyd'* (Disgybl Blwyddyn 9)

## Gweithwyr Ieuenctid

Mae cryn dystiolaeth o ddatblygu gwaith llwyddiannus rhwng asiantaethau a rhai enghreifftiau da o weithwyr ieuenctid yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r ysgolion, er bod hyn yn dibynnu i ryw raddau, mae'n ymddangos, ar weithwyr ieuenctid yn cydymffurfio â naws yr ysgol neu ar ennill parch fel gweithwyr proffesiynol drwy arfer gwaith ieuenctid gorau. Mewn rhai achosion, mae canlyniadau cadarnhaol wedi cael effaith fawr ar newid y canfyddiadau cynnar o'u rôl.

- *'Ers dechrau'r prosiect mae datblygu cysylltiadau ag asiantaethau statudol a gwirfoddol wedi ehangu a pharhau'*

- *'Mae (y weithwraig ieuenctid) wedi dod yn rhan annatod o'r ysgol. Mae ei chyfrinachedd a'i hymddiriedaeth o fudd i ddisgyblion yr ysgol ac mae hi wedi llwyddo'n dda'* (Athrawes)


- *'Ar ôl cyfnod o "ddod i adnabod ein gilydd" … rwy'n dechrau teimlo fel rhan fwy cysylltiedig o'r ysgol'*

- *'Mae yna gyfathrebu rheolaidd a da rhwng y ddwy brif asiantaeth . . . ac rydym yn cydweithio i ddangos llwyddiannau'r merched i'r rhieni'*

- *'Mae'n bosibl gweld buddiannau rhwydweithio yn y cyfeiriadau a'r gwaith gydag asiantaethau eraill'* (Rheolwr Siop Wybodaeth)

- *'Wrth i'r disgyblion sy'n cymryd rhan wella mae agwedd meddwl pobl eraill yn newid a gwella'*

**Map o Weithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion**
Mai 2002



## Ysgolion ac Asiantaethau Eraill

Ceir tystiolaeth bod llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn gweld y prosiectau mewn ffordd fwy cadarnhaol, gan gydnabod y gwaith y gall gwaith ieuenctid ei wneud o ran ymdrin ag anfodlonrwydd. Mae rhai wedi mabwysiadu cwricwlwm mwy hyblyg gan gynnwys gweithwyr ieuenctid ac asiantaethau eraill mewn sesiynau o fewn yr ysgol. Gyda rhai eithriadau nodedig, mae ysgolion wedi bod yn hwyrfrydig i gydweithio â'r prosiectau mewn ffordd integredig, ar wahân i ddarparu sgiliau craidd a chwricwla amgen a chyfeirio disgyblion. Mae'n debyg mai problem sefydliadol yn hytrach na phroblem unigol yw hon a gall adlewyrchu pryderon a blaenoriaethau addysg yn y brif ffrwd.

- *'Wrth i'r prosiect dyfu a dod yn fwy effeithiol mae staff yr ysgol yn ein cymryd fwy o ddifrif gan gydnabod y ffaith bod y dull hwn yn effeithiol iawn o ran mynd i'r afael â'r problemau sy'n anodd iddynt'*

- *'Ar y cyfan, mae yr ysgol a'r coleg yn gefnogol iawn i'r dulliau yr ydw i wedi bod yn eu defnyddio'*

- *'Mae gan yr ysgol ysbryd sy'n cydweddu'n dda â gwaith ieuenctid yn gyffredinol. Mae'r staff a'r gweithwyr gofal i gyd wedi bod yn gefnogol iawn'*

- *'Defnyddir ffurflenni gan athrawon pynciau lle gallant nodi a yw disgyblion yn cael anawsterau y gall pobl eraill eu datrys'*

- *'Mae'r ysgol wedi defnyddio sawl asiantaeth allanol er mwyn creu rhaglen amrywiol i'r merched'*

- *'Mae barn y staff dysgi a'u hagwedd at y rhaglen wedi gwella'n fawr eleni'*

- *'Rydych wedi'r ysgol i ddatblygu ein syniadau mewn sawl maes pwysig'*

## 5. DYFYNIADAU

Adleisir llawer o'r pwyntiau a wneir yn adran **4** yn '**Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru 2001 - 2002.'** ac yn yr '**Adroddiad Terfynol ar Fenter Mynediad Ieuenctid Cymru',** (Estyn 2002). Dyma rai o'r materion allweddol a godwyd mewn perthynas â'r rhaglen:

- *Mae cynorthwywyr dosbarth a gweithwyr ieuenctid yn chwarae mwy o ran mewn ysgolion. Mae eu gwaith, yn enwedig gyda rhai sy'n cael gwaith ysgol yn anodd, yn help mwy o ddisgyblion i ennill hyder a gwneud cynnydd da gyda'u dysgu. Mae cynlluniau cymorth ymddygiad yn gweithio'n dda i wella ymddygiad disgyblion sy'n debygol o darfu ar waith disgyblion eraill'.*

- *'Mae prosiectau gwaith ieuenctid yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc sy'n methu gweld gwerth mewn ysgol. Mae llawer o'r bobl ifanc yn symud ymlaen o'r prosiectau at gyrsiau mewn sefydliadau addysg bellach. Mae eraill yn chwilio am hyfforddiant neu waith'.*

- *'Mae cynlluniau lle mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio gyda grwpiau bychain o ddisgyblion wedi gwella presenoldeb hefyd'.*

- *'Mewn prosiectau o fewn ysgolion mae'r gweithwyr ieuenctid yn gwneud llawer i helpu pobl ifanc i wella eu hagwedd meddwl a'u dysgu'.*

- *'Mae prosiectau fel y Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion, lle mae gweithiwr ieuenctid yn gweithio o fewn yr ysgol, yn fwy llwyddiannus o ran cadw pobl mewn cysylltiad â bywyd yr ysgol na cheisio ailintegreiddio pobl ifanc unwaith y byddant y tu allan i'r ysgol ers amser maith'.*

- *'Mae'r fenter (Mynediad Ieuenctid) wedi gwella ein dealltwriaeth o bobl ifanc anfodlon a gwelwyd newidiadau yn agwedd meddwl rhai o'r staff. Mae hyn yn neilltuol o wir lle mae cyswllt agos rhwng gweithgareddau Mynediad Ieuenctid â'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion'.*

- *'Mae'n ymddangos bod Prosiectau (Mynediad Ieuenctid) sy'n fwy rhan o fywyd yr ysgol yn fwy llwyddiannus o ran newid agwedd pobl ifanc tuag at yr ysgol, athrawon a disgyblion eraill. Maent yn foddion i newid yr ysgol ei hun hefyd'.*

- *'Mae'r prosiectau mewn llawer o ardaloedd wedi eu hen sefydlu ac mewn safle, ar y cyd â phrosiectau'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion, a gwasanaethau ieuenctid lleol, i gychwyn partneriaethau estynedig er mwyn cynorthwyo pobl ifanc ledled Cymru i ddatblygu'n oedolion'.*

## 6. ARGYMHELLION

O gofio llwyddiant cyffredinol y gwahanol brosiectau, a'r cynigion sydd gerbron am gwricwlwm mwy galwedigaethol ar gyfer y bobl ifanc hynny y mae'r cwricwlwm academaidd traddodiadol yn llai addas iddynt, ymddengys y gallai'r cysyniad o bartneriaethau gwaith ieuenctid ac ysgolion chwarae rhan bwysig yn cynorthwyo nifer sylweddol o bobl ifanc. Yn y cyd-destun hwn mae hi'r un mor bwysig cydnabod bod y rhaglenni partneriaeth nid yn unig yn cael effaith fuddiol ar y bobl ifanc hynny y mae'n ymwneud â nhw'n uniongyrchol, ond yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar yr ysgolion eu hunain a'u gallu i ddarparu'r cwricwlwm prif ffrwd yn fwy effeithiol. Mae newid agwedd disgyblion a allai darfu trwy eu symud yn galluogi athrawon i ddilyn eu gwaith addysgol mewn amgylchedd mwy cadarnhaol yn lle rheoli gwrthdrawiad.

Mae'r rhaglen wedi ei gwneud yn bosibl adnabod yr agweddau hynny ar arfer sydd wedi bod yn llwyddiannus ac agweddau y mae angen eu gwella. Tynnir sylw at rai o'r anawsterau a nodwyd yn adrannau **3** a **5** uchod.

At y dyfodol, rhaid ymchwilio i'r argymhellion a ganlyn a'u datblygu:

- Rhannu 'Arfer Gorau'

*Rhaid gwneud rhagor yn hyn o beth. Cynhaliwyd un gynhadledd lwyddiannus. Y rhaglenni mwyaf effeithiol yw'r rhai mwyaf integredig. Dylai trafodaethau ar lefel leol, ranbarthol genedlaethol gynnwys cynrychiolwyr pob partner sy'n rhan o'r broses.*

- Egluro nodau

*Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan egluro nodau pob prosiect, gan ddibynnu ar y grŵp targed o bobl ifanc. Os mai ailintegreiddio disgyblion i addysg yn y brif ffrwd yw'r flaenoriaeth dylid gwerthuso a gweithredu'r strategaethau mwy priodol i wneud hyn. Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai opsiwn mwy realistig i rai grwpiau yw darparu cwricwlwm amgen ond dilys a dylid mabwysiadu strategaethau i wneud hynny.*

- Hyfforddiant

*Mae'n glir bod llwyddiant rhai prosiectau wedi dibynnu ar allu'r staff i gydweithio gyda gweithwyr proffesiynol y naill at y llall, gan rannu'r un egwyddorion a gwerthoedd. Ni ellir cymryd hyn yn ganiataol, ond dylid datblygu strategaethau hyfforddi rhyngbroffesiynol er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad fel rhan hanfodol o gynlluniau yn y dyfodol. Dylid darparu hyfforddiant hefyd i ymdrin â materion megis 'cymorth ymddygiad' a gwaith cefnogi gyda theuluoedd. Yn y prosiectau hynny lle mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyrsiau achrededig, dylai hyfforddiant priodol (megis F.E.T.C.) fod ar gael.*

- Gweithio mewn partneriaeth

*Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau llwyddiannus yn cynnwys gweithio strwythuredig mewn partneriaeth gyda chyfarfodydd rheolaidd rhwng gweithwyr ieuenctid a staff ysgolion, gan gynnwys staff asiantaethau eraill ar brydiau. Dylai cyfarfodydd o'r fath fod yn rhan reolaidd a naturiol mewn prosiectau yn y dyfodol.*

- Lleoliad prosiectau

*Dylid penderfynu ar leoliad prosiectau yn ôl yr amcan y cytunwyd arno. Mae'n well cynnal prosiectau i ailintegreiddio disgyblion o fewn yr ysgol, ac mae'n bosibl bod datblygu cwricwlwm amgen yn fwy effeithiol os bydd yn cael ei gynnal y tu allan i'r ysgol, gan ddefnyddio darparwyr eraill yn y sector Addysg Bellach.*

- Cymorth a goruchwyliaeth

*Ceir rhai achosion lle'r oedd gweithwyr ieuenctid yn teimlo'n unig ac ar ymylon yr ysgol. Er bod modd gwella pethau trwy rai o'r strategaethau a amlinellwyd uchod, mae hi'r un mor bwysig i weithwyr ieuenctid dderbyn cymorth a goruchwyliaeth digonol gan y rhai sy'n gyfrifol amdanynt fel rheolwyr llinell, lle bynnag y bydd y prosiect.*

## CASGLIAD

Mae'r Rhaglen Bartneriaeth Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion wedi llwyddo y tu hwnt i'w nod gwreiddiol ac fel y dengys y map (tudalen 8) mae rhyw 100 o weithwyr ieuenctid bellach yn gweithio mewn ysgolion o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen. Mae lefelau presenoldeb, agwedd a chyflawniad wedi codi ac mae'r bobl ifanc hynny a oedd mewn perygl o gael eu diarddel wedi cael eu cadw mor agos â phosibl at addysg.

Ceir ymroddiad o hyd i'r partneriaethau, ac mae ganddynt fantais fawr o ran darparu addysg addas i anghenion pobl ifanc.

Yr hyn sy'n angenrheidiol erbyn hyn yw hyfforddiant a chymorth priodol er mwyn sicrhau bod gweithwyr ieuenctid a dulliau gwaith ieuenctid yn parhau ac yn cael eu cymhathu â diwylliant addysg yn y brif ffrwd, gan wneud anghenion pobl ifanc (dysgwyr) yn flaenoriaeth.

Paratowyd y pecyn Gwaith Ieuenctid ac a ysgrifennwyd modiwl hyfforddiant o safbwynt gweithwyr ieuenctid a gâi eu cyflogi ar y rhaglen. Bydd y ddau beth hyn yn ceisio sicrhau na fydd safbwynt a gwerthoedd gwaith ieuenctid yn cael eu hanghofio.

## ATODIAD 1

## PROSIECTAU UNIGOL – CRYNODEB O'R NODAU A'R STRATEGAETHAU

**Ynys Môn**
*Ffocws y Prosiect Drws Agored oedd cwricwlwm yr ysgol, gan ddatblygu achrediad agen, cwnsela disgyblion penodol a defnyddio systemau gwobrwyo am ymddygiad priodol yn yr ysgol. Gan weithio mewn un ysgol, cynhwysai'r rhaglen waith gydag unigolion, grwpiau, rhieni a'r gymuned ehangach.*

**Blaenau Gwent**
*Mae'r prosiect Alpha yn gweithio mewn un ysgol yn y sir gan dargedu disgyblion Blwyddyn 10 sy'n methu ymgynnal mewn addysg a hyfforddiant yn y brif ffrwd. Cyfeirir disgyblion trwy broses ymgynghorol sy'n cynnwys yr ysgol, gwasanaeth les addysg a phennaeth y prosiect. Mae rhieni a disgyblion yn cymryd rhan yn wirfoddol hefyd am fod hyn yn cael ei weld fel rhan allweddol o gynnal egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid. Cynhelir y cysylltiadau â'r pyncia craidd ond rhan allweddol o'r rhaglen yw cwricwlwm amgen.*

**Pen-y-bont ar Ogwr**
*Gweithiai'r prosiect Headway mewn un ysgol yn y sir gan dargedu disgyblion Blwyddyn 11 sydd â chyraeddiadau academaidd isel neu ddisgyblaeth wael. Datblygwyd cynlluniau gweithredu unigol ac mae disgyblion yn dal mewn cysylltiad elfennau allweddol y cwricwlwm cenedlaethol ochr yn ochr â chwricwlwm amgen sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith. Mae'r rhaglenni achrededig yn cynnwys RhCA, ASDAN; yn ogystal â COEA a TGAU. Mae rhieni'n chwarae rhan ac maent yn derbyn bwletinau rheolaidd ar gynnydd y bobl ifanc.*

**Caerffili**
*Yn gweithio mewn un ysgol benodedig yn y bwrdeistref gan ddefnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar anghenion sydd â chysylltiad agos â'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys – ennyn hyder; rheoli dicter; sgiliau bywyd; gweithgareddau celf; gweithgareddau awyr agored a chysylltiadau â choleg Addysg Bellach lleol Lle bo modd, mae'r cyfleoedd hyfforddi'n cael eu hachredu (Dug Caeredin, RhCA ayb.). Datblygwyd cysylltiadau cadarnhaol ag asiantaethau cefnogi eraill.*

**Caerdydd**
*Yn ffocysu'n benodol ar bobl ifanc 'y gofelir amdanynt', rhai ohonynt ag anawsterau dysgu sylweddol. Darperir y rhaglen trwy raglenni gwaith a negodwyd yn unigol a gynigir mewn sawl ffordd gyda'r nod i ennyn awydd y rhai sy'n cymryd rhan i ailintegreiddio ag addysg yn y brif ffrwd a/neu i dderbyn cyfleoedd hyfforddi. Gwneir hyn trwy ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o gyrsiau achrededig a rhaglenni dysgu amgen, sy'n cynnig cymorth 'mentor' i bawb sy'n cymryd ran a datblygu partneriaeth ag asiantaethau cefnogi yn y sector gwirfoddol.*

**Sir Gaerfyrddin**
*Nodwyd tair ysgol yn y sir, dwy ysgol drefol ac un ysgol wledig. Yn ffocysu ar ddisgyblion a ddiarddelwyd neu sydd mewn perygl o gael eu diarddel. Mae'r rhaglen yn gysylltiedig â rhaglenni mynediad disgyblion cyfredol a mentrau gwaith estyn. Mae'r cynllun yn cynnwys gweithredu ar sail anghenion a noddwyd gan grŵp o asiantaethau arbenigol mewn ymgynghoriad â disgyblion a'u rhieni. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys – cwricwlwm hyblyg, profiadau dysgu amgen, achredu, datblygu cynlluniau mentora dan arweiniad cyfoedion ac oedolion.*

**Ceredigion**

*Darparwyd mewn un ysgol yn y sir, mewn partneriaeth â'r fenter mynediad ieuenctid, gwasanaeth lles addysg, uned gyfeirio disgyblion ac ystod o sefydliadau preifat a chyhoeddus eraill. Ffocws penodol y gwaith yw disgyblion ym Mlwyddyn 10 sydd mewn perygl gwirioneddol o gael eu diarddel a'r nod yw cynnig cyfleoedd cwricwlaidd amgen ynghyd ag achrediad. Bydd y gweithiwr ieuenctid yn cynorthwyo disgyblion i adnabod cyfleodd dysgu priodol gan gynnig cymorth yng nghyd-destun yr ysgol gyda'r nod yn y pen draw o ailintegreiddio disgyblion eto i ddarpariaeth yn y brif ffrwd. Rhagwelir hefyd y bydd 'clwb ôl-ysgol' yn cael ei ddatblygu i weithredu o fewn y cwricwlwm gwaith ieuenctid.*

**Conwy**

*Yn gweithio gyda dwy ysgol yn y sir mewn partneriaeth ag ystod eang o ddarparwyr cyhoeddus a phreifat eraill. I raddau helaeth mae'r prosiect yn dilyn agenda gwaith ieuenctid a'i ffocws yw cyd-destun Fforwm Ieuenctid sy'n 'ceisio datblygu ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddinasyddiaeth, democratiaeth a chyfranogiad er mwyn eu grymuso i fod â llais yn y gymdeithas heddiw'. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys – gwaith grŵp, gweithgareddau awyr agored, prosiectau unigol, drama a gwaith wyneb-yn-wyneb. Cydnabyddir cyflawniadau dysgu trwy'r YAA ac mae achredu gan y RhCA yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd.*

**Sir Ddinbych**

*Yn gweithio gyda dwy ysgol yn y sir, ond yn rhan integredig o'r fenter mynediad ieuenctid sydd â chylch gorchwyl ehangach ar draws y sir. Y nod yw datblygu pecyn cydlynol rhwng asiantaethau er mwyn datrys problemau anfodlonrwydd a datblygu ystod o strategaethau ymyrryd priodol i bobl ifanc. Dull gweithredu yn seiliedig ar anghenion yw hwn sy'n cynnig cyfleoedd addysg anffurfiol a chymorth o ran datblygiad addysgol, iechyd a chymdeithasol pobl ifanc. Yn ogystal â chyfeiriadau gan wahanol asiantaethau mae'r cynllun yn cynnal polisi 'drws agored' llwyddiannus sy'n caniatáu hunangyfeirio.*

**Sir y Fflint**

*Cynhwysai'r bartneriaeth ddwy ysgol yn y sir a'r gwasanaeth lles addysg. Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda phobl ifanc o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 12. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys gwaith grŵp, gwaith unigol, cymorth gan gyfoedion a chyfleoedd dysgu eraill megis Mynediad Ieuenctid a Gwobr Dug Caeredin yn ogystal â darpariaeth drws agored. Datblygwyd cynllun cyfeillachu i liniaru'r problemau a wynebir gan rai disgyblion wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.*

**Gwynedd**

*Yn gweithio gyda thar ysgol benodedig ym Meirionnydd gan dargedu pobl ifanc sy'n anfodlon ar addysg ffurfiol neu sydd mewn perygl o fod felly. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys ymateb i anghenion unigolion trwy ddarparu pecynnau dysgu unigol a meithrin perthynas fentora; creu cysylltiadau gyda rhieni; datblygu pecynnau dysgu amgen ar gyfer sgiliau allweddol; datblygu cyfleoedd dysgu ychwanegol gydag achrediad lle bo hynny'n briodol; adnabod a chynorthwyo pobl ifanc i geisio darpariaeth ieuenctid briodol yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol..*

**Merthyr Tudful**

*Yn gweithio gydag un ysgol yn yr ardal gyda chysylltiadau agos â gwerthoedd craidd a datganiad o fwriad yr ysgol. Ceisiodd y prosiect dargedu deg o ddisgyblion a oedd yn tangyflawni, wedi dieithrio neu'n gweld yr ysgol fel rhywbeth lle amherthnasol iddynt. Datblygwyd cysylltiadau agos ag asiantaethau eraill yn yr ardal a chynhaliwyd y prosiect y tu allan i'r ysgol gyda gweithwyr ieuenctid yn gweithredu fel dolen gyswllt ag asiantaethau eraill gan gynorthwyo disgyblion a rhieni. Yr elfen allweddol yn y berthynas hon yw gallu'r gweithwyr i feithrin perthynas gyda phobl ifanc er mwyn rhoi cymorth deallusol ac emosiynol iddynt mewn ffordd anfeirniadol.*

**Sir Fynwy**

*Mewn un ysgol yn y sir ac yn cynnal cyswllt parhaus o fewn y system addysg ffurfiol. Targedodd y prosiect bobl ifanc yn yr ysgol a oedd wedi eu dieithrio o addysg ffurfiol gyda'r nod o'u cynorthwyo i ailgysylltu trwy ddefnyddio dulliau anffurfiol, gwaith unigol a datblygu perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc. Gwobrwywyd gan pobl ifanc gyda thystysgrifau cyrhaeddiad. Datblygwyd cysylltiadau ag ystod eang o asiantaethau eraill yn cynnwys Mynediad Ieuenctid; prosiectau mentora; yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol.*

**Castell-nedd Port Talbot**

*Yn gweithio gyda dwy ysgol benodedig yn y sir. Mae'r prosiect wedi targedu uchafswm o 15 o bobl ifanc i gymryd rhan yn y cynllun. Fe'u hadnabuwyd gan yr ysgolion fel rhai a oedd yn anfodlon ac yn methu gyda'r cwricwlwm ffurfiol. Mae'r rhaglen yn defnyddio dulliau gwaith ieuenctid anffurfiol yn ei gwaith ac yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu amgen yn seiliedig ar yr anghenion a'r diddordebau a fynegir gan y bobl ifanc eu hunain. Mae'r bobl ifanc yn mynychu'r ysgol am 2 ddiwrnod i ddysgu sgiliau sylfaenol, a threulir y 3 diwrnod arall mewn ystod o leoliadau yn dilyn cyrsiau a achredir gan yr RhCA a gweithgareddau eraill. Datblygwyd cysylltiadau cadarnhaol gydag ystod eang o asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau eraill.*

**Casnewydd**

*Yn gweithio mewn un ysgol benodedig gyda grwpiau Blwyddyn 7 i 11, mae'r prosiect, a redir gan gorff gwirfoddol, yn ceisio datblygu hyder a hunan-barch pobl ifanc anfodlon gan ddefnyddio rhaglen gydlynol o ofal bugeiliol ac addysg anffurfiol. Pennir nodau ar gyfer pob blwyddyn, a'r prif themâu yw atal a datrys problemau trosglwyddo ac eraill trwy ymyriad cynnar, gyda phwyslais yn y blynyddoedd hŷn ar ddatblygu hunan-barch a hunan-hygrededd trwy gwricwla amgen a gwaith prosiect gyda chyfleoedd i ennill achrediad a thystysgrifau.*

**Sir Benfro**

*Dewiswyd chwe ysgol i gymryd rhan yn y bartneriaeth ar y cyd â Mynediad Ieuenctid. Targedwyd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Darparwyd rhaglenni dysgu amgen gyda'r nod o ailgysylltu disgyblion ag addysg yn y brif ffrwd trwy lwybrau i unigolion a grwpiau. Mae gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion am ddau ddiwrnod yr wythnos ac yn defnyddio dulliau'n seiliedig ar anghenion gan ddefnyddio cynlluniau gweithredu a chyfleoedd dysgu amgen achrededig. Sefydlwyd perthynas ystod eang o asiantaethau cefnogi o'r sectorau gwirfoddol a statudol.*

**Powys**

*Yn gweithio gydag un ysgol benodedig yn y sir, ond yn darparu hefyd ar gyfer disgyblion yn rhan Brycheiniog o'r sir gan dargedu disgyblion anfodlon neu sydd wedi cael eu gwahardd o ysgolion yn yr ardal. Nod y prosiect yw cynnig cyfleoedd mewn partneriaeth â'r ysgol er mwyn ailgysylltu disgyblion ag addysg trwy gynnig ystod o opsiynau a chyngor, yn cynnwys rhaglenni RhCA achrededig, Gwobrau Dug Caeredin, NVQ a GNVQs. Mae'r rhaglen yn defnyddio sawl asiantaeth er mwyn osgoi ailadrodd gwaith a hwyluso gwaith ar y cyd.*

**Rhondda Cynon Taf**

*Yn cynnig darpariaeth ar wahân, gan dargedu disgyblion Blwyddyn i gychwyn 7 - 9 a disgyblion Blwyddyn 11 wedi hynny - 'mae'r rhaglen yn cael ei mireinio o hyd er mwyn cwrdd ag anghenion pobl ifanc a gyfeirir at y prosiect'. Mae'r rhaglen yn ateb anghenion disgyblion sydd ar fin cael eu gwahardd oherwydd absenoldeb neu broblemau ymddygiad. Mae'r rhaglen yn defnyddio sawl strategaeth, yn cynnwys gwaith grŵp, gwaith yn y gymuned, a chymorth a mentora personol. Datblygwyd cwricwlwm amgen eang ac achrededig mewn partneriaeth â darparwyr yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae cyllid lleol oddi ar hynny wedi creu cyfle i ehangu'r bartneriaeth er mwyn cynnwys rhaglenni eraill yn y sir.*

**Abertawe**

*Partneriaeth oedd hon gydag un ysgol a darparwr addysg anffurfiol mewn eglwys (mudiad gwirfoddol annibynnol) a'i tharged oedd disgyblion Blwyddyn 11 sydd heb gymhelliad ac yn anfodlon ar y ddarpariaeth bresennol. Darperir rhaglenni i grwpiau un rhyw ar y cyd gan yr ysgol a'r prosiect ieuenctid ac mae'n cynnwys ystod o gyrsiau byr achrededig a sgiliau craidd. Rhaglen gydlynol yw hon a ddarperir am 3 diwrnod gan y prosiect a 2 ddiwrnod gan yr ysgol dros y flwyddyn academaidd. Achredir cyrsiau gan y RhCA a Gwobr Dug Caeredin ac maent yn cynnwys darpariaeth gan asiantaethau arbenigol eraill.*

**Torfaen**

*Yn gweithio o un ysgol benodedig ac yn targedu pobl ifanc sy'n methu yn yr ysgol, sydd mewn perygl o driwanta a chael eu gwahardd. Mae cysylltiad agos rhwng y rhaglen a darpariaeth ABCh yr ysgol a darperir rhywfaint cwricwlwm amgen fel rhan o'r amserlen normal. Mae'r gweithiwr ieuenctid yn treulio dau ddiwrnod ym mhob ysgol ac mae gwaith yn cael ei ddatblygu hefyd mewn ysgolion cynradd cysylltiedig. Datblygwyd achrediad trwy'r RhCA a defnyddir dulliau eraill o gydnabyddiaeth, yn enwedig 'Gwobr y Maer' am weithgareddau yn y gymuned. Mae'r prosiect yn gofyn i bobl ifanc adnabod eu hanghenion a gwerthuso sut i'w hateb gyda'r nod o godi lefelau cyflawniad academaidd a phresenoldeb.*

**Bro Morgannwg**

*Yn gweithio o un ysgol benodedig ac yn targedu pobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol neu sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg yn y brif ffrwd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, ac mae'n eu cadw yn yr ystafell ddosbarth. Ategir hyn gan weithgareddau anffurfiol eraill y tu allan i oriau ysgol, naill ai clwb amser cinio neu ar ôl amser cau. Anghenion sy'n pennu'r rhaglen yn yr ystyr bod y disgyblion yn diffinio eu hanghenion a'u hanawsterau eu hunain, gan ddatblygu 'cynllun ymddygiad unigol' trwy ymgynghori â rhieni, staff yr ysgol ac asiantaethau priodol. Hwn yw sylfaen y sesiynau cymorth unigol. Sefydlwyd cysylltiadau ag ystod o asiantaethau cefnogi a chyfeirir pobl ifanc at y rhain fel y bo'n briodol. Cafodd y gweithiwr ieuenctid ei integreiddio i'r tîm cefnogi ieuenctid ac ymgynghorwyd ag ef yn y broses gynllunio. Y cynllun ar hyn o bryd yw cynyddu darpariaeth ar gyfer gwaith cwricwlwm amgen.*

**Wrecsam**

*Yn defnyddio model addysg ategol mewn un ysgol, yn targedu disgyblion Blynyddoedd 10 ac 11 sy'n methu ymateb i ddarpariaeth yn y brif ffrwd. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ddull cwricwlwm amgen a reolir ac a hwylusir gan weithiwr ieuenctid amser llawn a'r bwriad yw ategu ac atodi'r cwricwlwm cenedlaethol a ddarperir gan yr ysgol. Datblygwyd cysylltiadau agos ag ystod o asiantaethau sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiadau addysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc gynllunio'u gwaith a'u rhaglen addysg eu hunain gyda chymorth gweithiwr ieuenctid. Cynhelir athrawiaeth gwaith ieuenctid o gyfranogi gwirfoddol, hyd y gellir, o fewn y rhaglen. Mae defnyddio gwobrau ieuenctid ASDAN a dathlu pob llwyddiant wedi arwain at ddatblygu hunan-barch pobl ifanc a'u hyder i ymgymryd â chyfleoedd a phrofiadau addysgol pellach.*